

# NEGESYDD

AWST a MEDI 2020

## CYFARFODYDD AWST

Sul 2 Awst : Dim oedfa

Sul 9 Awst : Oedfa Zoom am 10  
dan ofal y Parchedig John Gwilym Jones

Sul 16 Awst : Dim oedfa

Sul 23 Awst : Oedfa Zoom am 10  
dan ofal y Parchedig Robin Samuel

Sul 30 Awst : Dim oedfa

*Dosbarthir deunydd myfyrio  
ymlaen llaw  
ar gyfer y suliau i gyd  
yn ogystal â manylion cyswllt ar gyfer yr oedfaon Zoom*

Mae ein diolch eto y mis yma i Gareth Ffowc Roberts am gasglu, cydlynu'r wybodaeth a golygu'r rhifyn yma.

*Dylid gyrru'r holl wybodaeth ar gyfer rhifyn Hydref y Negesydd  
i Ann a Gareth Roberts e-bost: [garethroberts46@icloud.com](mailto:garethroberts46@icloud.com) Ffôn: 01248 364049  
erbyn Medi 20, fan bellaf.*

*Neu, os y dymunwch, yn syth i'r Negesydd e-bost : [negesydd@btinternet.com](mailto:negesydd@btinternet.com)*

\*\*\*\*\*

Wrth baratoi rota'r golygyddion ar gyfer 2020/21

byddem yn croesawu'r cyfle i ychwanegu rhagor o enwau at y rhestr o wirfoddolwyr.

Am ragor o fanylion cysylltwch gyda'r Ysgrifennydd Gareth Ffowc Roberts, os gwelwch yn dda:  
e-bost : [ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com](mailto:ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com), Ffôn : 351243

# ER COF

## Rhown ddiolch i Dduw am yr aelodau fu farw ac a gollwyd o'n plith yn ystod 2019

### GERAINT HUWS ROBERTS

Cofiwn gyda diolch am Geraint Huws Roberts aelod ffyddlon a gweithgar yng Nghapel y Graig, ym Mhenuel ac yn Emaus ac yn bennaeth uchel ei barch yn Ysgol y Faenol. Cofiwn am un fu'n weithgar yn ei gymuned, fel Maer dinas Bangor ac yn gefnogwr elusennau lleol a bywyd diwylliannol Bangor.

### GLENYS GILL

Cofiwn gyda diolch am fywyd Glenys Gill, gwraig dawel, annwyl a diymhongar. Roedd y teulu'n bwysig iawn i Glenys a byddai wrth ei bodd yn hel atgofion am ei hynafiaid yn ei hardal enedigol yn Nyffryn Ogwen.

### EURWEN WILLIAMS

Cofiwn gyda diolch am fywyd Eurwen Williams, yn wraig fwyn a boneddigaidd. Treuliodd ei blynyddoedd olaf yng nghartref Tysilio a byddai'n hynod o siriol a chrosawus bob amser a phob tro'n sôn am ei phlentyndod yn ardal Llanrug.

### EIRWEN READ

Cofiwn gyda diolch am Eirwen Read, aelod ffyddlon ac organyddes yng nghapeli Bethmacca, Beulah a Phendref, un a fu'n gweithio am flynyddoedd ym Mhrifysgol Bangor ac un a gofir fel ffrind da ac am ei hwyl a'i synnwyr digrifwch.

### MEGAN LLOYD JONES

Cofiwn gyda diolch am Megan Lloyd Jones, aelod ffyddlon ac organyddes yn Eglwys Pendref ac wedi hynny yn Emaus. Cofir amdani fel gwraig annibynol ac anturus, yn hynod o garedig a byrlymus ac yn un oedd yn hoff iawn o deithio.

### GWILYM OWEN

Cofiwn gyda diolch am fywyd Gwilym Owen. Cofir amdano fel newyddiadurwr a darlledwr toreithiog. Bu'n bennaeth rhaglenni newyddion a materion cyfoes yn HTV a'r BBC ac yn olygydd newyddion Radio Cymru. Bu ar un adeg hefyd yn ddiagon ac yn athro Ysgol Sul ym Mhenuel.

### ELSIE PARRY

Cofiwn gyda diolch am fywyd Elsie Parry, aelod o un o deuluoedd masnach Bangor ac un a weithiodd yn gydwybodol yn rhai o siopau nodedig y ddinas megis Wartski's, Debenhams a Woolworths. Cofir amdani fel cymeriad llawn hwyl oedd yn hoff o deithio.

### ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019

O ganlyniad i'r amgylchiadau eleni, ni fu'n bosibl i'r swyddogion baratoi a dosbarthu Adroddiad Blynyddol 2019 yn y ffordd arferol. Mae'r cofnod 'Er Cof' wedi'i gynnwys uchod a bydd aelodau'n derbyn yr adroddiad cyllidol am y flwyddyn mewn neges ebost neu ar ffurf copi caled. Hyderir y daw cyfle yn yr hydref i aelodau drafod yr adroddiad.

*Gareth Ffowc Roberts*  
*Ysgrifennydd*  
ar ran y swyddogion

ATGOFION AM  
MEGAN PRICE MORRIS

(*Mehefin 11eg 1915 - Mehefin 23ain 2020*)

Gofynnwyd i mi ysgrifennu darn i gofio Mam. Roeddwn yn petruso ar y dechrau ond yn sylweddoli mai fi, erbyn hyn, oedd yn 'nabod Mam orau. Anodd, os nad amhosibl, yw crynhoi bywyd rhywun sydd wedi byw am dros ganrif a'm hatgofion ohoni yn ymestyn am dros bedwar ugain mlynedd. Daw cyfle arall i sôn am rieni Mam, ond beth am Megan Price Morris ei hun?

Roedd Mam yn disgrifio Dinorwig ei phlentyndod fel lle oedd yn ferw o weithgareddau amrywiol lle yr oedd yn rhaid dewis pa rai a ddewisai fynd iddynt bob noson o'r wythnos. O ran ei haddysg, cychwynnodd yn ysgol gynradd Dinorwig yn 1920. Pasiodd y "*scholarship*" (11+) i fynd i ysgol Brynrefail. Yr adeg honno roedd plant Dinorwig yn cerdded i'r ysgol ymhob tywydd i lawr ffordd Y Fachwen. Pan fyddai'r tywydd yn ddrwg iawn, roeddynt yn aros dros nos mewn gwahanol dai ym mhentref Brynrefail. Er ei bod yn ddisgybl pur ddisglair ac er pleidio'r athrawon iddi aros, bu'n rhaid i Mam adael yr ysgol yn 15 oed i ofalu am ei mam ac am ei brawd ei hun, Abram, a oedd ag anghenion arbennig. Pan oedd ei chwaer Alice yn ddigon hen, fe wnaeth hi yr un gwaith yn gofalu am y teulu drwy ei bywyd. Ar ôl i Anti Alice gymryd drosodd y gwaith domestig, aeth Mam i weini i Ffestiniog a gofalu am hen wraig yno.

Priododd Mam a'm tad yng Nghaernarfon gan nad oedd gan Gapel Sardis drwydded i gynnal priodasau, a buont yn byw yn Pant Sardis, lle cefais i fy ngeni, cyn symud i Tŷ Capel Sardis i fod yn ofalwyr a glanhawr y capel, a gofalu am bregethwyr a ddeuai bryd hynny i aros dros nos ar y Sadwrn a chael eu bwydo ar y Sul. Doedd dim tâl i gael, ond roedd y tŷ yn rhydd o orfod talu rhent. Deuai'r pregethwyr o bob rhan o Gymru a mwynheai Mam eu cwmni. Dwi'n gwrido rwan wrth gofio fod yn rhaid i mi, yn fy llais soprano, ganu i ddfyrru amryw o'r pregethwyr dwad.

Yn ystod y rhyfel roedd Mam yn rhedeg y tŷ capel ar ei phen ei hun am fod fy nhad i ffwrdd

yn Burma efo'r fyddin. Ganed Marsli, fy chwaer, yn y tŷ capel ychydig fisoedd cyn i'n tad gael ei alw i fyny i'r fyddin. Enwyd Marsli ar ôl Marsli Jones, gwraig John Jones, Yr Hen Gloddiwr: pregethwr poblogaidd ac uchel ei barch, yn arbennig drwy ogledd Cymru. Roedd yn weinidog Sardis ac ar yr un pryd yn gweithio yn y chwarel. Roedd amgylchiadau pawb yr adeg honno yn dlodaidd ac roedd hi'n amhosib talu cyflog i weinidog.

Symud o Ddinorwig i Fangor wnaeth Mam a'n nhad yn y 60au cynnar i fod yn ofalwyr ar safle'r Fenai, Y Coleg Normal. Yr oedd y symud i raddau mawr oherwydd cyflwr iechyd fy nhad. Yr oedd yn waith ysgafn, i'w gymharu a'r gwaith caled yn y chwarel.

Ar ôl marw fy nhad yn weddol ifanc, aeth Mam wedyn yn Fwrsar Cynorthwyl yn Neuadd Rathbone yn y Brifysgol. Roedd yn byw mewn fflat yno ac wrth ei bodd ymysg y myfyrwyr ifanc. Roedd yn aelod o gapel Penuel yn ystod cyfnod y Parchedig Ifor Williams ac yn edmygydd mawr ohono ac yntau ohoni hi. Fe gyfarfu y ddau gyntaf pan oedd Ifor Williams yn fyfyrwr ac yn dod i fyny o Goleg y Bedyddwyr i bregethu yn Sardis ac wedyn wrth gwrs yn Weinidog ar Sardis a Libanus, Clwt y Bont.

Ym Mangor ceisiodd Mam uno gyda phob mudiad Cymraeg. Cofiodd yn dda am ei phrofiad yn cymryd rhan yn y rhaglen gwis deledu 'Gwybod y Gair', rhaglen wedi ei sylfaenu ar wybodaeth o'r Beibl a'r Llawlyfr Moliand, gan ddwyn i gof y bobl ddiddorol oedd ar y rhaglen. Ar achlysur ei phen-blwydd yn 100 oed yn 2015 a hithau'n cael ei ffilmio ar gyfer rhaglen '*Heno*', gwenodd wrth wneud y sylw: 'Mae'n rhaid na wnes i'n dda iawn y tro d'wetha ar y TV am 'nath neb ofyn i mi wedyn tan ddoth '*Heno*' yma i ffilmio pan dwi'n 100 oed.'

Wedi ymdeol, yn ôl yr aeth Mam i Minffordd Dinorwig i fyw. Bu Mam yn hoff o ddarllen erioed, fel ei mam, ac yn hoff iawn o deithio hefyd. fel ei thad, a bu'n ymweld â nifer fawr o wledydd Ewrop (a hynny mewn bws gan amlaf) ac enwodd Oberammagau, Rhufain, Fenis a Bled fel ei hoff ymweliadau.

Er nad oedd yn dweud hynny mewn geiriau, dwi'n gwybod mai fi a Marsli a'n teuluoedd oedd bwysicaf iddi. Wnaeth hi erioed ymyrryd yn ein bywydau ond roedd hi wastad yn barod i drafod pethau gan orffen bob tro gyda'r geiriau 'Y chdi sy'n gwbod ora'. Yn gwbl groes i'r arferiad, gwnaeth un peth heb ymgynghori efo Nancy na finnau. Roedd y ddau ohonom ar y pryd yn fyfyrwyr ym Mhrifysgol Kansas UDA. Enillodd Nancy Gymrodoriaeth Woodrow Wilson i fyfyrwyr disglair astudio hanes y Celfyddydau Cain o dan Athro o'u dewis mewn prifysgol ym Mhrydain. Yr un pryd roeddwn wedi cael swydd dysgu yn Ysgol Mill Hill yn Llundain. Roeddem wedi hysbysu fy rhieni, drwy lythyr, ein bod am briodi ar ôl cyrraedd Bangor ond prin oedd yr amser cyn i mi ddechrau ar fy swydd dysgu yn Llundain a doedd gennym ddim syniad yn y byd sut oedd mynd o'i chwmpas hi i drefnu priodas (doedd y rhyngwyd ddim ar gael yn 1962!). Roeddem mewn cariad ond yn naif iawn wrth edrych yn ôl. Penderfynom mai'r ffordd fwyaf di-rodres a synhwylol o dan yr amgylchiadau oedd priodi mewn swyddfa cofrestrydd. Nid oedd hi'n bosib i deulu Nancy fod yn ein priodas am fod y teulu ar fin dychwelyd i America ar ôl i dad Nancy fod yn filfeddyg yn y fyddin yn Ffrainc am bedair blynedd, yn profi iechyd yr

anifeiliaid yno, i ddarganfod a oeddynt yn addas ar gyfer bwydo milwyr Americanaidd.

O edrych yn ôl ar y cyfnod, mae'n amlwg nad oedd Mam yn fodlon ar ein cynllun, neu ein diffyg cynllun. Ond am nad oedd yn un am ddadlau, fe aeth ymlaen, heb ymgynghori efo Nancy a minnau, i wneud paratodau ar gyfer ein priodas. Trefnodd i'r Parchedig Ifor Williams ein priodi ym Mhenuel a bod y wledd briodas yn y festri; trefnodd organydd; trefnodd i'm ffrind o Ddinorwig a'm chwaer Marsli i fod yn was a morwyn priodas; a threfnodd y rhestr o wahoddedigion. I goroni'r cyfan, cafodd fenthyg recordydd tâp gan Maldwyn Lewis, er mwyn i rieni Nancy yn America glywed recordiad o'r seremoni. Roedd hi wedi gwneud yr holl waith yn hollol ddiffwdan a'r unig beth oedd yn rhaid i Nancy a fi wneud oedd troi i fyny. Dyna'r unig dro y gwnaeth Mam rywbeth llechwraidd tu ôl i'n cefnau ond roeddwn ac fe fyddwn yn dragwyddol ddiolchgar iddi am hynny.

Dim rhyfedd fod Nancy yn dweud heb amheuaeth nad oedd yna fam yng nghyfraith ragorach yn yr holl fyd.

Eirwyn Morris

## **ATEB I BOS GORFFENNAF 2020 - POS ZOOM**

Mewn cyfarfod Zoom mae modd gosod lluniau Dafydd, Gareth, Rhianwen a Siân i greu 24 o batrymau gwahanol i gyd.



## **POS AWST/MEDI 2020**

### **POS CIWIO DAU FETR**

Alun yw'r degfed person o ben y ciw ac ef hefyd yw'r degfed person o gefn y ciw.

Gan gadw at y 'rheol ddau fetr', faint yw hyd y ciw mewn metrau?

**Bydd yr ateb yn rhifyn Hydref.**



Ar Lan y Môr  
yn  
Llanfairfechan  
mae...



## BLODAU GWYLLTION

Clustog Fair



Sêr y Morfa



Lafant y Môr



Celyn y Môr.



Ysgedd Arfor



## ADAR

Pioden Fôr



Gwylan benddu



Glas y Dorlan



Cwtiaid y Traeth.



## SLEFROD



## CREGYN A GWYMON



## AC ÔL DINISTRIOL POBL!



Lluniau  
gan  
Catrin Evans





Detholiad o gamau taith Megan Price Morris  
dros gan mlynedd o'i bywyd.

Llun ei chartref - Minffordd, Dinorwig  
(cyn ei foderneiddio yn y 70au.).

Dyma'r tŷ lle cafodd ei geni  
ac a fu'n byw ynddo am gyfnodau hir.

## CHWIORYDD ARFON

Gyda thristwch clywsom am farwolaeth ein chwaer, Megan Morris yng Nghartref Gofal yr Wyddfa, Llanberis yn 105 mlwydd oed. Roedd uwchben ei phethau bron hyd y diwedd a phob amser yn siriol os oedd rhywun yn galw heibio i'w gweld.

Cyfarfyddais â Megan yn niwedd yr wythdegau yng Nghyfarfod Blynyddol Chwiorydd Arfon. Bryd hynny, cynhaliwyd y cyfarfod yn ffreutur Plas Glynllifon ac roedd yr ystafell dan ei sang! Yn y cyfnod hwnnw, roeddwn yn gweithio gyda Chyngor Sir Gwynedd ac felly, o dan y drefn "fflecsi", roeddwn yn gallu trefnu cael prynhawn i ffwrdd er mwyn mynychu'r cyfarfod. Ar y dechrau, doeddwn i'n adnabod neb ac yn teimlo'n reit chwithig yn mynd i ganol y merched, ond nid oedd raid ofni gan fod pawb mor gyfeillgar ac agos atoch.

Roeddwn yn llawn edmygedd o'r chwiorydd o'r "topiau" oedd bob amser yn barod i ysgwyddo cyfrifoldebau. Dan arweiniad Nellie Wyn Jones, roedd criw hynod ddibynadwy yn barod i roi cyflwyniad ar unrhyw thema yn flynyddol. Fel roedd yr amser yn mynd ymlaen, ymgymerais â'r swydd o Ysgrifennydd a Llywydd a gallwn fod yn dawel fy meddwl y byddai chwiorydd Sardis a Libanus yn ufudd i unrhyw alwad. Byddai Megan a'i chwaer Alice bob amser yn y criw.



Elen Wyn Megan ac Alice yn Sardis

Mor braf oedd gwybod y gellid ymddiried unrhyw dasg i'r chwiorydd gweithgar yma a gwybod y byddent wedi paratoi neu addasu sgript bwrpasol ar gyfer y cyfarfod. Fe ddigwyddodd hyn hyd yr eithaf a bu Megan yn driw i'r cyfarfodydd hyd nes iddi orfod mynd i gartref gofal. Hyd yn oed wedyn, byddai'r diddordeb yn y gweithgareddau yn dal.

Rhodddwyd y Fedal Gee i Megan am ei theyrngarwch i'r Ysgol Sul, a derbyniodd yr anrhydedd yr un diwrnod â fy mam mewn cyfarfod yng Nghapel Bowydd, Blaenau Ffestiniog, ym mis Mai 1990 - dwy wraig o'r un anian.



Gwisgo'r fedal gyda balchder



Cyflwyno Medal Thomas Gee i Megan

Gwelsom eisiau Megan a'r criw yng nghyfarfodydd Chwiorydd Arfon a bydd hiraeth ar ei hôl.

Heddwch i'w llwch a gwiredddwyd y gair "*....yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth....*"

Sian Arwel Davies

## GAIR GAN Y GWEINIDOG : *Adnewyddiad*

Cyrhaeddais at y cyfrifiadur ar gyfer cyfarfod o bwyllgor Cytûn yn ddiweddar yn teimlo'n reit flinedig. Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod blinedig i ni gyd. Bu llawer yn brysur yn mynd allan i weithio neu'n gweithio gartre, ac mae hyd yn oed peidio gweithio a pheidio â mynd allan yn medru gwneud i ni deimlo'n llesg a difwyd.

Mae hi wedi bod yn gyfnod gofidus hefyd - poeni am y Covid-19, poeni am ein teuluoedd a'n ffrindiau ac mae meddwl am y ffordd orau i wneud y pethau syml fel prynu bwyd neu dalu biliau yn flinedig. Mae rhai ohonoch wedi bod dan bwysau ychwanegol ac wedi bod yn rhyfeddol o ddewr.

Dros yr wythnosau diwethaf, rydym wedi derbyn llawer o ddeunydd trafod i'n helpu ni ddeall pryd y cawn ni fynd yn ôl i'n haddoldai ac mae'r canllawiau rheiny fel petaen nhw'n newid fesul awr. Mae rhai enwadau wedi cyhoeddi canllawiau ac eraill ar fin gwneud. Mae meddwl a phendroni am y pethau yma yn medru bod yn waith blinderus hefyd. Ond i fynd yn ôl at y cyfarfod Cytûn ar Zoom. Cyn dechrau trafod, fe'n harweiniwyd ni mewn defosiwn oedd yn cynnwys y geiriau yma o Eseia 40:

*Oni wyddost, oni chlywaist?*

*Duw tragwyddol yw'r ARGLWYDD a greodd gyrrau'r ddaear;  
ni ddiffygia ac ni flina, ac y mae ei ddeall yn anchwiliadwy.*

*Y mae'n rhoi nerth i'r diffygiol, ac yn ychwanegu cryfder i'r di-rym.*

*Y mae'r ifainc yn diffygio ac yn blino, a'r cryfion yn syrthio'n llipa;  
ond y mae'r rhai sy'n disgwyl wrth yr ARGLWYD yn adennill eu nerth;*

*y maent yn magu adenydd fel eryr, yn rhedeg heb flino, ac yn rhodio heb ddiffygio.*

Mae'r geiriau yn ein hatgoffa ni o dri pheth. Mae'n ein hatgoffa o'r Duw mawr oesol a nerthol sydd gyda ni - mae angen i ni ddysgu ymddiried mwy ynddo fe a phwyso arno'n fwy nag erioed y dyddiau yma. Cawn ein hatgoffa hefyd mai pobl feidrol ydyn ni sy'n medru blino ac mae hi'n iawn i ni gyfaddef hynny a pheidio ceisio bod yn 'superman' neu 'superwoman' drwy'r amser. Mae'r geiriau hefyd yn ein hatgoffa fod Duw yn gweld ein hangen ac yn cynnig adnewyddiad ac adfywiad i ni.

Ein bwriad fel eglwys yw ei chymryd hi'n dawel fel eglwys ym mis Awst yn ôl ein harfer wedi prysurdeb y tymor, a dyna fy mwriad innau hefyd. Byddaf ar gael wrth gwrs ar ben arall y ffôn os cyfyd rhyw fater bugeiliol. Mae dwy oedfa Zoom wedi eu trefnu ar gyfer y mis a nifer o gyfeillion wedi ein cynorthwyo drwy baratoi deunydd myfyrio i'n cynnal ni dros y cyfnod yma. Gallwn weld hwn fel cyfnod o adnewyddiad i adennill ein nerth er mwyn medru dechrau yn ein holau gam wrth gam ym mis Medi.

Diolch am eich cwmni a'ch cefnogaeth ar y daith a phrun ai adre fyddwch chi neu allan, ym Mangor neu ar eich taith, cadwch yn ddiogel ac yn galonnog.

**'Bydded i'r ARGLWYDD eich bendithio a'th cadw;  
bydded i'r ARGLWYDD lewyrchu ei wyneb arnoch,  
a bod yn drugarog wrthych:  
bydded i'r ARGLWYDD edrych arnoch, a rhoi ichi heddwch.'**

*Cari M Jones*



## CASI, CANADA A COVID

Yn y cyfarfod cyntaf o'r Ysgol Sul ar Zoom ar 28 Mehefin, cefais gyfle i rannu'r stori a'r lluniau hyn gyda'r plant a'r bobl ifanc a dyma gyfle i'w rhannu gyda darllenwyr y Negesydd:

Wyth deg o flynyddoedd yn ôl i ddydd Mercher diwethaf, 24 Mehefin, gadawodd dwy ferch fach, Sara ac Ann, eu cartref yn Llundain, a mynd gyda'u mam ar fordaith o ddociau Lerpwl i Ganada. Fel llawer o blant a phobl ifanc y cyfnod, roedden




Sara

nhw'n gadael eu cartrefi i fod yn ddiogel am fod Prydain yn rhan o ryfel ac roedd bomiau'n disgyn ar ei dinasoedd. Yn y cyfnod yma bu'n rhaid i nifer fawr o blant adael eu cartref yn y ddinas a mynd i le cwbl newydd i aros gyda theuluoedd

caeredig mewn ardaloedd gwledig.

Am fod gan mam Sara ac Ann deulu yng Nghanada, ar 24 Mehefin 1940 dyma nhw'n mynd ar fwrdd llong y 'Duchess of Bedford' gyda 1140 o deithwyr ar ei bwrdd a hwylio i Ganada. Dim ond chwech oedd Ann a Sara'n bump!



Roedd hi siŵr o fod yn brofiad ofnus iddyn nhw ac roedd yn rhaid iddyn nhw fod yn ddewr iawn. Dwi'n meddwl fod plant a phobl ifanc y cyfnod hwnnw yn dipyn o arwyr!

Mae plant a phobl ifanc heddiw yn dipyn o arwyr hefyd. Mae profiadau'r misoedd diwethaf wedi bod fel rhyw daith anturus a newydd i chi i gyd a dydy hi ddim wedi bod yn hawdd arnoch chi na'ch teuluoedd yn gorfod dysgu a gweithio adre a methu gweld ffrindiau. Pwy a wŷr na fydd pobl yn astudio'r cyfnod yma mewn blynyddoedd i ddod ac yn dweud -'dyna ddewr oedd plant a phobl ifanc yn ystod cyfnod Covid-19!'

Gyda llaw, ydych chi'n gwybod pwy ydy'r ferch yn y llun? Nid 'Sara' dwi'n ei galw hi ond 'Mam' am mai fy mam i yw hi.

*Cari M Jones*

Hydranga  
Macrophylla  
Seithlliw'r  
enfys  
neu  
Trilliwarddeg  
yng ngardd  
Siân  
ac  
Eurfryn



## BARA SODA

### CYNHWYSION

Cwpaned a thri chwarter o flawd gwyn plaen  
Cwpaned a thri chwarter o flawd brown o'ch dewis.

*(Hovis Granary Bread Flour sydd gen i  
am mai dyna'r unig un oedd ar gael)*

Llond llwy fwrdd o fenyn.

Llond llwy de wastad o soda pobi.

Llond llwy de o halen. *(Rhyw hanner yn ddigon gen i)*

Llaeth enwyn *(Mae'n dod mewn pot 284 ml)*



### DULL

- Rhoi popeth ond y llaeth mewn powlen fawr a rhwbio'r menyn i mewn i'r blawd.
- Ychwanegu'r llaeth enwyn gan roi ei hanner i mewn yn syth ac yna ei roi fesul tipyn nes bod y toes yn wlypach na thoes bara arferol.
- Ei ffurfio'n belen, ei rhoi ar dun wedi ei orchuddio efo papur gwrthsaim a'i gwasgu yn gylch rhyw ddwy fodfedd o drwch.
- Torrwch siâp croes ar y dorth cyn ei rhoi mewn popty 200°C am hanner awr.

*Cathrin Williams*



## GRADDIO

Llongyfarchiadau mawr i Awen Edwards, merch Carys a Marc, sydd wedi graddio gyda gradd dosbarth cyntaf yn y Gyfraith gyda'r Gymraeg y Mhrifysgol Bangor.

Bydd Awen yn dechrau ar ei swydd fel Ymchwilydd Cynorthwyol yng Nghomisiwn y Gyfraith yn Llundain, gan ymuno gyda'r tîm Cyfraith Cyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru.

Ei thasg fydd gweithio ar brosiect tribiwnlysoedd datganoledig.

*Dymuniadau gorau.*

## ENID MARY ROBERTS (1925-2020)

Ganwyd Enid ym Methesda ar 31 Awst 1925 i'w rhieni Elizabeth a John Davies. Roedd gan Enid bum brawd: Tommy, John, (Enid), Arfon, Brynmor a Huw (*yr unig frawd sydd dal yn fyw*).

Collodd Enid ei mam pan oedd hi'n 14 oed a'i thad pan oedd hi'n 26 oed.

Wrth droi'n 15 oed, aeth Enid i weithio fel morwyn tŷ yn Gorrddinog, Llanfairfechan. Pan oedd hi tua 18 oed, aeth i weithio ar dir fferm yn Llannerch-y-medd fel 'Land Girl'. Derbyniodd y teulu fathodyn y Fyddin Tir yn ddiweddar ar ran Enid am ei hymdrechion yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Ar ôl i'r rhyfel ddod i ben, dechreuodd Enid weithio yn ffatri Ferranti ar Ffordd Caernarfon, Bangor ac yno y cyfarfu â Glyn - "husband to be". Priododd y ddau ar 29 Hydref, 1949.

Cafodd Enid a Glyn bump o blant: Glenda, Brian, Stephen, Wendy a'r diweddar Barry a farwodd ar 1 Gorffennaf 2019. Roedd ganddi ddeuddeg o wyrion a deg o or-wyrion.

Bu farw Enid ar 21 Mehefin 2020 yng nghartref gofal Cerrig-yr-Afon, Y Felinheli. Cynhaliwyd gwasanaeth angladd yn Amlosgfa Bangor ar gyfer y teulu agos ar 30 Mehefin dan ofal ein gweinidog. Mi fydd colli Enid yn ergyd enfawr i'r holl deulu.

Bedair blynedd yn ôl, dathlodd Enid ei phen-blwydd yn 90 oed mewn bwffe yn festri Emaus. Yn y blynnyddoedd diwethaf cafodd ofal arbennig ym Mhlas Hedd, Maesgeirchen ac ysbrydolwyd grŵp o Emaus i ddechrau mynd yno i gynnal gwasanaeth bach a chanu emynau. Byddent yn cael croeso arbennig a gwên bob tro gan Enid.

Enid oedd y ferch, y chwaer, y fam, y nain a'r hen nain y mae pawb yn ei haeddu a buom mor ffodus i'w chael yn rhan o'n bywydau cyn hired.

Hoffai Glenda a'r teulu ddiolch i Casi ac aelodau'r capel am yr holl eiriau caredig am Enid yn ystod y cyfnod anodd hwn.

*Merynne Roberts*



Enid a Glyn ar ddiwrnod eu priodas



Un o hoff luniau'r teulu o Enid





## GRADDIO MEWN GARDD

Llongyfarchiadau calonnog i Manon Owen, merch Helen a Gwilym, ar ei llwyddiant yn ennill gradd BSc Dosbarth Cyntaf ym Mhrifysgol Birmingham mewn Gwyddoniaeth Biofeddygol.

Mae hi'n edrych ymlaen at fynd i Brifysgol Leeds yn yr Hydref i ddilyn cwrs doethuriaeth.

*Pob hwyl i ti Manon*

*Llun: Manon yn rhan o seremoni raddio ffug yn yr ardd gartref wedi benthg 'cap and gown' ei mam.*

## Cydymdeimlo

Wrth i'r Negesydd fynd i'r wasg clywsom am farwolaeth un o'n haelodau sef Mrs Eira Hughes, Ffordd Ffriddoedd. Cydymdeimlwn â'i mab Colin a'i merched Gillian a Wendy a'r teulu oll. Bydd cyfle i gofio amdani yn llawnach yn y rhifyn nesaf o'r Negesydd. Rydym yn cydymdeimlo gyda phawb ohonoch sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

## Cyfarchion i'n haelodau mewn cartrefi gofal.

Da oedd clywed fod Beryl Davies wedi gadael yr ysbyty a bellach yng nghartref gofal Plas Garnedd, Llanfairpwll ac rydym yn cofio'n anwyl ati.

Rydym yn hefyd yn anfon ein cofion at Bet Eurig Davies ym Mhlas Hedd, Maesgeirchen a Muriel Edwards yng nghartref gofal Fairways Newydd, Llanfairpwll.